# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Martyn Holland, Arwel Roberts, Huw Williams a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW); Partner Busnes Arweiniol - Datblygu Sefydliadol (AM); Rheolwr Rhaglen - Moderneiddio Addysg (JC); Uwch Brisiwr a Syrfëwr ac Eiddo (MJ); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## CYHOEDDIADAU

Yr Arweinydd -

(i) Rhoddodd wybod i’r Aelodau am adferiad y Cynghorydd Huw Jones a oedd wedi ei daro'n wael yn ddiweddar a chadarnhaodd y trefniadau dros dro i drosglwyddo ei gyfrifoldebau i Aelodau Cabinet eraill er mwyn sicrhau y bydd pob maes yn ei bortffolio yn cael sylw yn ei absenoldeb, ynghyd â, cyn belled ag y bo modd, ei gyfrifoldebau cymunedol.

(ii) Llongyfarchodd tîm pêl-droed Cymru ar eu llwyddiant yn Ewro 2016 a diolchodd i'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am drefnu’r ardal gefnogwyr yn Arena Ddigwyddiadau’r Rhyl ar gyfer gêm gynderfynol Ewro 2016 a hynny ar fyr rybudd. Roedd yr ardal yn hynod boblogaidd a phawb wrth eu bodd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 MATERION BRYS

Dim.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 RHAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 - BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant adroddiad yn nodi'r gofynion i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob rhanbarth bwrdd iechyd yng Nghymru, a'r camau sy'n cael eu cymryd i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yma yng Ngogledd Cymru.

Diben Rhan 9 yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol yn hyrwyddo gweithio integredig ac yn edrych ar amrywiaeth o ffrydiau ariannu rhanbarthol yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Yn dilyn cytundeb partneriaid statudol, a oedd yn cynnwys chwe awdurdod lleol gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae Bwrdd Cysgodol wedi ei sefydlu i hwyluso'r broses o sefydlu'r bwrdd ffurfiol ym mis Medi. Mae'r Cynghorydd Feeley yn credu bod y Ddeddf wedi bod yn gatalydd angenrheidiol ar gyfer newid mewn ymateb i ddemograffeg gynyddol a phobl yn byw'n hirach, ac i wella bywydau.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i gwestiynau fel a ganlyn -

- Nid yw adnoddau'r bartneriaeth (arian parod, pobl, asedau, cyfleusterau, ac ati) yn gwbl glir ar hyn o bryd ond bydd yn fater i'r Bwrdd ei ystyried; mae'r Bwrdd Cysgodol wedi cyfethol cynrychiolydd Adran 151 o'r rhanbarth, gyda Swyddog Adran 151 y Cyngor yn cymryd yr awenau, sy'n rhoi sicrwydd ynghylch yr agweddau ariannol.
- Bydd yr elfennau cydweithio a phartneriaeth yn helpu i ddatblygu'r gwaith o integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, a bydd yr asesiad anghenion rhanbarthol yn helpu i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau lleol integredig a fyddai'n cynnwys prosiectau rhanbarthol ac isranbarthol.
- Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod arian ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru yn cael ei ddosbarthu'n deg ac yn briodol er budd y rhanbarth.
- Bydd mudiadau trydydd sector hefyd yn cael eu cynrychioli ac yn dod yn bartneriaid statudol pan fydd y Bwrdd ffurfiol wedi ei sefydlu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

(a) *yn cymeradwyo cynigion Bwrdd Cysgodol y Bartneriaeth Rhanbarthol i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amodol ar ddeialog dwy ffordd barhaus rhwng y Bwrdd a phartneriaid ar y rhaglen waith a threfniadau gweithredu ar gyfer y Bwrdd;*

(b) *yn enwebu ei gyfarwyddwr statudol a'i aelod arweiniol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i eistedd ar y Bwrdd, ac*

(c) *yn cefnogi'r opsiwn strwythurol lle -*

*(i) mae Grŵp Arweinyddiaeth o Swyddogion yn cefnogi'r Bwrdd drwy ddarparu cyngor strategol a chyfarwyddo gwaith gweithredol.*
*(ii) mae'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â threfniadau ardal i gyflwyno gwasanaethau integredig a chyllidebau cyfunol (lle bo'n briodol).*

## 6 POLISÏAU CYFLOGAETH A TGCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad yn argymell mabwysiadu'r pedwar polisi cyflogaeth sydd wedi eu datblygu/hadolygu. Mae'r adroddiad yn manylu ar y ddau bolisi newydd ac yn amlygu'r newidiadau arfaethedig o fewn y polisïau presennol a'r rhesymau am hynny. Ymgynghorwyd â'r Undebau ac maent yn hapus efo'r polisïau.

Y polisïau dan sylw yw -

(1) Polisi Diogelwch Gwybodaeth TGCh (Polisi Diwygiedig)
(2) Polisi Lles a Chymorth (Polisi Newydd)
(3) Gweithdrefn Dychwelyd i'r Gwaith yn Raddol (Gweithdrefn Newydd)
(4) Polisi Teithio (Polisi Diwygiedig)

Dywedwyd bod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol unwaith eto wedi methu ffurfio cworwm o ochr y gweithwyr. Cadarnhawyd bod yr undebau wedi ymgynghori ar y polisïau y tu allan i'r cyfarfod a bod hynny wedi arwain at newid geiriad y Polisi Lles a Chymorth o ran amseroedd triniaethau wrth dderbyn cymorth cwnsela a gwasanaethau ffisiotherapi/osteopathi. Mae'r holl ddiwygiadau terfynol wedi eu cytuno arnynt gan yr Undebau cyn cyflwyno'r dogfennau polisi i'r Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisïau cyflogaeth fel y manylwyd yn yr adroddiad.*

## 7 STRATEGAETH AR GYFER ATAL A CHANFOD TWYLL, LLYGREDIGAETH A LLWGRWOBRWYAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer atal a chanfod twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyaeth, i'w chymeradwyo. Mabwysiadwyd y strategaeth flaenorol yn 2006 ac mae'r drafft diweddaraf wedi ei diweddaru i ystyried y datblygiadau deddfwriaethol, technolegol a phroffesiynol newydd ac i gynnwys neges glir na fyddai'r Cyngor yn goddef amhriodoldeb.

Yn ystod y drafodaeth gofynnwyd cwestiynau ynghylch y camau i ddelio ag ystod o weithgareddau twyllodrus ynghyd ag unrhyw ddiwygiad o ran arfer gorau.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fel a ganlyn -

- Eglurwyd y byddai'r Cyngor yn parhau i fabwysiadu dull rhagweithiol o atal gweithgareddau twyllodrus gyda'r strategaeth ddiwygiedig yn nodi sefyllfa'r Cyngor yn glir yn y cyswllt hwnnw a'r rheolaethau ar waith.
- Dywedodd fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am ddelio ag erlyniadau yn ymwneud â thwyll budd-daliadau ond, er gwybodaeth, bod yr adran tai/treth y cyngor wedi derbyn copi o'r strategaeth.
- Ers mabwysiadu'r polisi yn 2006 mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi cyhoeddi canllawiau newydd gyda mwy o bwyslais ar adnabod risg.
  Mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol bellach yn cyfeirio at hyrwyddo gwyliadwriaeth a lleihau risg ac mae gwaith hefyd wedi ei wneud i greu diwylliant gwrth-dwyll effeithiol gydag ystod o strategaethau eraill yn eu lle i hyrwyddo gwyliadwriaeth ynghyd â chamau i'w cymryd pan ganfyddir gweithgareddau twyllodrus.
- Mae gan y Cyngor amrywiaeth o fesurau i ddiogelu yn erbyn twyll ar y rhyngrwyd gan gynnwys systemau TG a chaffael electronig diogel a gwiriadau adnabod.
  Pob blwyddyn, fel rhan o Rwydwaith y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid i'r Cyngor gyrraedd safonau llywodraeth llym o ran diogelwch.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyaeth fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2015/16**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys gan ddangos cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2015/16.

Wrth grynhoi'r adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at y cefndir economaidd a'i effaith ar weithgareddau rheoli'r trysorlys. Tynnodd sylw at y prif bwyntiau o ran benthyca a gweithgarwch buddsoddi, gan gynnwys tu i adael cytundeb Cynllun Ariannu Preifat Neuadd y Sir a thalu i adael y Cymhorthdal Refeniw Tai, a fydd yn arwain at arbedion sylweddol i'r awdurdod. Cadarnhaodd hefyd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddangosyddion darbodus, a rhoddodd wybodaeth am y dangosyddion hynny (gweler Atodiad B yr adroddiad). Atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid bod gweithgarwch benthyca'r Cyngor yn cael ei gymell gan ei wariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r cynllun cyfalaf. Yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd bu'r marchnadoedd ariannol yn anwadal am gyfnod. Nododd y Cabinet bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn diweddariad rheolaidd ar weithgareddau rheoli'r trysorlys.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Trafodwyd y cyhoeddiad diweddar y gall banciau gyflwyno cyfraddau llog negyddol, a fyddai'n golygu y byddent yn dechrau codi tâl ar dderbyn adneuon gan gwsmeriaid busnes.
  Cadarnhawyd y byddai hynny’n effeithio ar yr arian yng nghyfrif cyfredol y Cyngor ac, os cyflwynir mesur o’r fath, byddai angen rheoli'r risg yn ofalus i gyfyngu ar amlygiad y Cyngor mewn perthynas â chadw arian mewn cyfrifon cyfredol. Gall hynny wedyn arwain at addasu'r strategaeth bresennol er mwyn adneuo mwy o arian parod gyda’r trysorlys yn hytrach na banciau.
- Mae’r strategaeth rheoli trysorlys yn seiliedig ar gydbwyso risg gydag elw ar fuddsoddiad. Yn ystod yr wyth mlynedd ddiwethaf mae’r enillion wedi bod yn isel iawn o gymharu â’r blynyddoedd cyn hynny ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi bod yn wyliadwrus.
- Cyfeiriwyd at y strategaeth fenthyca bresennol fel modd o bennu symiau benthyca a chyfnodau ad-dalu - eglurwyd bod y strategaeth yn cael ei rheoli drwy’r portffolio dyled presennol a’r dyddiadau aeddfedrwydd ynghyd â gofynion cyllido cyfalaf; mae’r proffil dyled yn cael ei ystyried dros gyfnod o hanner can mlynedd.
- Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch statws credyd y banciau ac arddododd y Prif Swyddog Cyllid ar ddiweddariadau amser real a ddarperir i'r Cyngor gan ei ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd, i sicrhau y gweithredir ar unwaith i ddiogelu arian parod dan yr amgylchiadau hynny ac y caiff y sefyllfa ei monitro'n gyson. Yn ôl y cyngor diweddaraf nid oes angen cymryd unrhyw gam mewn perthynas â hynny.

Roedd y Cabinet hefyd yn pryderu ynghylch yr ansicrwydd ariannol a wynebai’r llywodraeth leol a'r economi leol a chenedlaethol ehangach, ac ynghylch effaith y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd. Gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r aelodau yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiad yn hyn o beth ac y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i ddylanwadu ac ymateb yn gyflym er mwyn gwneud y gorau o unrhyw fudd i'r sir.

***PENDERFYNWYD*** *nodi’r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2015/16.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd gorwariant net o £0.402 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- rydym ni wedi llwyddo i gyrraedd 42% o’r targed ar gyfer arbedion (£5.2 miliwn), ac yn gwneud cynnydd da ar ganfod 25% arall o’r arbedion - mae nifer o arbedion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd y canlyniadau'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol
- amlygodd y risgiau cyfredol a’r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- Cyfeiriodd y Cynghorydd David Smith at yr angen i fynd i'r afael â'r gorwariant parhaus yng nghyllideb Cludiant Ysgol yn y cylch cyllideb nesaf gyda golwg ar ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chost lawn y ddarpariaeth.
- Mae'r Cyngor hefyd yn mynd i gostau ychwanegol yn sgil methiant cwmni GHA Coaches. Mae'r Cyngor wedi ceisio cyflenwi cynifer o'r gwasanaethau bysiau hynny ag y bo modd.
  Soniodd y Cynghorydd Smith am gyfarfod sydd ar y gweill gyda'r Gweinidog dros yr Economi a Seilwaith i drafod pa gymorth all Llywodraeth Cymru ei ddarparu yn hynny o beth. Trafodwyd y goblygiadau o ran cost a dichonoldeb llwybrau bysiau penodol yn y dyfodol, ac awgrymwyd y dylid codi'r pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli gwasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gyda'r Gweinidog. Sicrhaodd y swyddogion fod y broses dendro ar gyfer gwasanaethau yn gadarn, gan gynnwys meini prawf pris ac ansawdd, ac y byddai'n rhaid i gontractwyr basio profion diwydrwydd dyladwy trylwyr cyn caiff y contract ei ddyfarnu. Yn anffodus, yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, gall amgylchiadau cwmnïau newid yn eithaf cyflym. O ran y ddarpariaeth gludiant yn y dyfodol, efallai y bydd angen model diwygiedig neu ddull arloesol sy'n cynnwys y gymuned. Argymhellodd yr Arweinydd y dylid ail-ffurfio'r Fforwm Cludiant Gwledig, neu ffurfio fforwm tebyg i drafod y pryderon a'r ffordd ymlaen
- Cyfeiriwyd at y pwysau mewn perthynas â chontract Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gyda rhai aelodau o staff wedi eu symud i feysydd gwasanaeth eraill er mwyn lleihau costau a gwaith wedi ei gyfyngu i glirio eira a graeanu.
  Gellir codi'r pryderon ynghylch rôl Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru gyda'r Gweinidog newydd yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref a gweld a yw o'r un farn â'r Gweinidog blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd Huw Williams ei fod yn bryderus ynghylch cyflwr gwael yr A5 ac eglurodd y Cynghorydd David Smith mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn ac argymhellodd y dylai gysylltu â'r Gweinidog yn uniongyrchol.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at benderfyniad y Cabinet i sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu balansau ysgolion a dywedodd fod y gwaith wedi dechrau. Cyfeiriodd hefyd at brosiect Ysgolion Cynradd Rhuthun, fel y manylir yn Atodiad 4 i'r adroddiad, a gofynnodd, er tryloywder, i gyfanswm cost y prosiect yn ogystal â'r dichonoldeb / elfen dylunio gael ei gynnwys yn yr adroddiadau o hyn allan.
- Dywedwyd y byddai pwysau chwyddiant, fel gweithredu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a chynnydd mewn ffioedd cartrefi gofal yn cael eu lleihau drwy gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau yn 2016/17. Fodd bynnag, ateb tymor byr yw hyn a bydd angen mynd i'r afael â hyn yn y tymor hwy.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch prosiectau ailwampio ysgolion eraill sydd angen buddsoddiad cyfalaf, dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams fod gwaith wedi ei wneud i nodi meysydd ar gyfer buddsoddi yn barod ar gyfer cyllid Band B a fydd yn cael ei lansio cyn bo hir.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol -

- Darpariaeth Ffydd Uwchradd - symud o fis Gorffennaf i fis Medi
- Diweddariad ar brosiectau a ariennir drwy'r Cynlluniau Tref ac Ardal – mis Medi
- Hen Ysbyty Gogledd Cymru (Gorchymyn Prynu Gorfodol) - mis Mehefin
- Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 y Cynllun Datblygu Lleol ac Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol – mis Hydref

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD,*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 ac 14 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 11 DATBLYGIAD ADDYSGOL GLASDIR (ADEILADAU YSGOL A CHYFLEUSTERAU NEWYDD AR GYFER YSGOL STRYD Y RHOS AC YSGOL PEN BARRAS, RHUTHUN)

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract adeiladu ar gyfer datblygiad addysgol Glasdir. Mae'r prosiect yn cynnwys adeiladu ysgol a chyfleusterau newydd ar gyfer Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras.

Wrth ystyried yr adroddiad nododd yr aelodau y broses gaffael ynghyd â'r gofynion ariannu a'r amserlen a ragwelir ar gyfer cwblhau. Ymatebodd y Cynghorydd Williams i wahanol faterion a godwyd ynghylch y datblygiad a soniodd am gadernid y broses ar gyfer cyfrifo nifer y disgyblion presennol a'r nifer yn y dyfodol gyda digon o fodd i ehangu yn y dyfodol os oes angen. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y prosiect a'r hyblygrwydd o ran arian at raid. Cyfeiriwyd hefyd at y gobaith ar gyfer safleoedd yr ysgolion presennol, sydd wedi ei ddogfennu'n dda o ran darparu tai gofal ychwanegol. Dywedodd y Cynghorydd David Smith fod arno eisiau eglurhad ynghylch y mesurau i'w rhoi ar waith i sicrhau llwybr diogel i'r ysgol, gan ychwanegu y dylai'r datblygwr gwrdd â'r gost honno.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penderfyniad terfynol i lunio contract ffurfiol gyda'r contractwr a enwyd fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer Cam 3 y contract yn ymwneud â phrosiect Datblygiad Addysgol Glasdir yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor, yn amodol ar y pecyn cyllido cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ddim yn cael ei rhagori.*

## 12 TYN Y CELYN, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo datgan y fferm a'r tir yn weddill i anghenion a'i waredu wedi hynny ar y farchnad agored.

Ystyriodd y Cabinet rinweddau'r cynnig gan nodi bod y camau gwaredu yn cydymffurfio â strategaeth stadau amaethyddol y Cyngor ac y byddai'n cynhyrchu derbyniad cyfalaf sy'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf. Byddai cadw tua 25 acer yn rhoi cyfle i osod y tir i newydd-ddyfodiad i ffermio. Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i newydd-ddyfodiaid ac roedd y Cynghorydd David Smith yn awyddus bod ymgeiswyr gyda chymhwyster amaethyddol yn cael blaenoriaeth. Roedd arno hefyd yn awyddus i'r colegau lleol gefnogi'r newydd-ddyfodiad. Soniodd y Cynghorydd Eryl Williams bod sefydliadau eraill yn darparu cyfleoedd yn Eryri. Dywedodd swyddogion fod trafodaethau wedi eu cynnal o'r blaen gyda choleg ynghylch ffyrdd o gynorthwyo newydd-ddyfodiaid a bod ymchwil wedi ei gynnal mewn perthynas â chyfleoedd eraill a oedd ar gael. Amlygwyd yr angen i gynnal proses ddethol agored a bod y cynnig yn dal yn cael ei ddatblygu ac y bydd y Gweithgor Stad Amaethyddol yn cael mewnbwn yn y broses ddethol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Eryl Williams yr angen i sicrhau gwerth am arian gydag isafswm pris yn cael ei gosod a gofynnodd am ystyriaeth bellach i rannu'r tir yn lotiau i sicrhau'r incwm mwyaf posibl. Roedd yn pryderu, heb rannu'r tir yn lotiau cywir, y gallai'r tir gael ei werthu gan y perchennog newydd am bris uwch yn y tymor byr. Manylodd y swyddogion ar y broses brisio a gwaredu trwyadl a defnyddio amod gorswm i warchod buddiannau'r Cyngor yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw ganiatâd cynllunio. Ymhelaethwyd ymhellach ar y rhesymeg y tu ôl i rannu'r tir ac, mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, cytunwyd i roi ystyriaeth bellach i rannu'r tir yn lotiau a chytunodd y Cabinet i ddiwygio'r penderfyniad i adlewyrchu'r camau hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo -*

*(a)* *datgan Fferm Tyn y Celyn, sy'n dod i gyfanswm o tua 10.32 ha (25.47 acer) fel y dangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A i'r adroddiad, yn weddill i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared ar y fferm ar y farchnad agored, ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i lotio'r safle a chyngor prisiad proffesiynol ynghylch y cynnig mwyaf manteisiol ar gyfer y Cyngor;*

*(b)* *cadw tua 10.42 ha (25.74 acer) o dir moel a ddangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A i'r adroddiad er mwyn gosod y tir hwn i newydd-ddyfodiad i ffermio;*

*(c)* *y dylai cyfran o'r derbyniadau cyfalaf, sef oddeutu £50,000, sy'n codi o'r gwaredu gael ei gadw a'i ddefnyddio er mwyn galluogi darparu adeilad amaethyddol/sylfaen ar gyfer gweithrediadau fel rhan o osod y tir moel, ac yn*

*(d)* *cymeradwyo datgan y 10.42 ha (25.74 acer) sy'n weddill o dir a ddangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A i'r adroddiad yn weddill i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared ar y tir hwn ar y farchnad agored pe na fod wedi bod yn bosibl i osod y tir hwn i newydd-ddyfodiad o fewn cyfnod o 12 mis.*

## 13 LODGE FARM, DINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo datgan y fferm a'r tir yn weddill i anghenion a'i waredu wedi hynny fel y nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet rinweddau'r cynnig, sy'n cydymffurfio â strategaeth stadau amaethyddol y Cyngor, a nodi'r amodau gorswm sydd yn eu lle i warchod budd y Cyngor yn y safle yn y dyfodol. Dywedwyd hefyd y byddai'r tir sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer tai yn cael ei gadw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo datgan Lodge Farm, Dinbych (fel y dangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A sydd ynghlwm wrth yr adroddiad) yn weddill i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared ar y fferm fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 p.m.